TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 23 Rhagfyr 2021

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Diolch i chi am gysylltu â Trafnidiaeth Cymru (TrC). Tynnwyd eich cais am wybodaeth i sylw tîm Llywodraethu Corfforaethol TrC yn dilyn eich cysylltiad cychwynnol â'n Tîm Cysylltiadau Llywodraeth a Materion Cyhoeddus. Deliwyd â'ch cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000).

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

(Yn dilyn cyswllt a gafwyd gan etholwr ynghylch Rheilffordd Treherbert)
*'A fyddech cystal ag edrych ar y data ar gyfer y mis diwethaf, a rhoi trosolwg o oedi/canslo ac ati* **[C1]** *a beth sy'n achosi'r rhain* **[C2]** *a beth sy'n cael ei wneud i leihau amlder oedi o'r fath* **[C3]**'

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydyn ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Cwestiwn 1
Mae'r ffigurau diweddaraf sydd gennym ar gyfer dydd Sul 14 Tachwedd 2021 - dydd Sadwrn 11 Rhagfyr 2021:

- roedd prydlondeb rheilffordd Treherbert yn 75.2% - dyma % y gwasanaethau a gyrhaeddodd bob gorsaf o fewn 3 munud ar ei thaith;
- roedd dibynadwyedd rheilffordd Treherbert yn 91.6% – dyma % y gwasanaethau a oedd yn rhedeg yn unol â'r amserlen a gynlluniwyd.

Cwestiwn 2
Mae'r rhesymau canlynol wedi effeithio ar berfformiad ar Reilffordd Treherbert yn ystod y mis diwethaf:

- Mae llifogydd ar y rheilffordd a thywydd garw, sydd wedi arwain at goed ar y rheilffordd, cyfyngiadau cyflymder mewn argyfwng ac unedau wedi'u difrodi wedi achosi'r achosion o oedi a chanslo mwyaf, gyda Storm Arwen a Storm Barra yn peri her sylweddol i ni.
- Rydyn ni hefyd wedi profi heriau o ran argaeledd criwiau trenau (yn enwedig yn y mis diwethaf) yn ymwneud ag absenoldeb tymhorol ac absenoldeb sy'n gysylltiedig â COVID. Mae llawer o'n achosion o ganslo wedi bod oherwydd y gofyn ar y diwrnod i hunanynysu neu i brofi yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.

Cwestiwn 3
Rydyn ni wedi symud i amserlen argyfwng o ddydd Mercher 22 Rhagfyr ymlaen. Mae hyn er mwyn paratoi ar gyfer cynnydd disgwyliedig mewn prinder staff o ganlyniad i ymddangosiad yr amrywiolyn Omicron o Covid-19 ac i sicrhau bod y cwmni'n gallu parhau i ddarparu gwasanaeth dibynadwy drwy gydol y cyfnod diweddaraf hwn o'r pandemig.

Er y bydd y cwmni'n parhau i gynnig lefel sylweddol uwch o wasanaeth o'i gymharu â dechrau'r pandemig yn 2020, bydd yr amserlen newydd yn golygu rhywfaint o ostyngiad mewn gwasanaethau. Mae hyn yn cyfateb i 10-15% o'r amserlen bresennol ac mae wedi'i gynllunio i leihau gorfod canslo'n hwyr gymaint â phosibl. Ei nod yw bod yn fwy dibynadwy i gwsmeriaid, gan eu galluogi i gynllunio eu teithiau'n effeithiol dros y cyfnod pwysig hwn. Yn benodol ar gyfer gwasanaethau Treherbert, bydd

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

yr amserlen argyfwng yn golygu gostyngiad o ddau wasanaeth dwyffordd allan o'r 26 gwasanaeth dwyffordd a oedd yn cael eu darparu'n flaenorol.

O safbwynt gweithrediadau, canolbwyntir ar leihau tagfeydd ar Blatfform 7 Caerdydd, sydd ar hyn o bryd yn cyfrannu at oedi ychwanegol ar draws gwasanaethau Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae hyn yn rhan o brosiect ehangach ar gyfer gwella perfformiad yng ngorsaf Caerdydd Canolog, ar y cyd â Network Rail a Chwmnïau eraill.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".